# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 6ed Medi 2016
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Dylan Edwards (Cadeirydd), Ada Evans, Ann Tudor, Meic Francis, Richard Davies, John Davies, Caredig Jones, Rowland Jones a Dewi Rattray.**

**YMDDIHEURIADAU: Cyng: Richard Davies & Meirion Davies.**

**ABSENOLDEBAU:**

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau i gyfarfod Miss Medi gan y Cadeirydd Dylan Edwards.

**15/937 - MATERION YN CODI**

1. Diweddariad am ffens Llwybyr Ystwyth wrth Cyng. Ann Tudor. Mae'r cyngor sir yn y broses o drefnu cyfarfod gyda rhai ffermwyr sydd â thir yn ffinio a'r llwybr.
2. Mae Cyngor Ceredigion eisioes wedi torri'r sietyn ar ffordd Trawscoed.
3. Cadarnhaodd y Cyng. Ada Evans, fod y twll ar ffordd Belvue wedi eu llanw.
4. Nodyn oddi wrth y Cyngor Sir yn cynghori fod grids Pentrellyn wedi eu trwsio.

**15/938- LLYTHYRON**

1. Ebost oddiwrth Jayne Hancock yn cynnwys cais gan y grŵp 'Brownies' lleol, yn gofyn ein bod yn nodi eu manylion ar ein gwefan. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu yn ôl ati i gadarnhau fod hyn yn foddhaol.
2. Poster 'Sut i ddod yn warchodwr plant cofrestredig'. Mi fydd hyn yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd y neuadd.
3. Llythyr oddi wrth aelod o'r cyhoedd ynglŷn â choeden ân ffordd Rhosygarth. Ofynnwyd i'r clerc ymateb ar y matter yma.
4. Llythyr 'cyflwyno' eu hun a'u cynlluniau, wrth Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.
5. Cyflwynwyd y Cyng.Meic Francis nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru.

**15/939 – ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Awst, sef £113.47. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng.Ann Tudor ac fe eiliwyd gan y Cyng. Richard Davies.
2. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Medi, sef £113.47. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng.Richard Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis.
3. Anfoneb oddiwrth Canolfan yr Hen Ysgol Llanilar am £22.50 (sef llog am yr ystafell am gyfarfod Miss Mai, Mehefin a Orfennaf). Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones
4. Anfoneb oddiwrth Technoleg Taliesin, am gofrestri domain a gwasanaeth hostio am wefan y Cyngor nes Miss Mawth 2017. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng.Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor

5. Tal PAYE o £85.00. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.Ada Evans ac fe eiliwyd gan y Cyng.John Davies.
6. Siec o £1000 trwy law Cyfreithwyr Morris & Bates. Rhodd a adawyd yn ewyllys Dilys Mair Parry i fynd tuag at gadw mynwent yr Eglwys. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu yn ôl at Morris & Bates am fwy o fanylion. Ni fydd y siec yn cael eu bancio ar hyn o bryd.

**15/940 – CYNLLUNIO**

A160687 - Ail gais ar gyfer Haul-Y-Bore, Llanilar.

Ofynnwyd for yr un ymateb a'r cais blaenorol (A151010) yn cael eu cyflwyno i'r adran cynllunio yn y Cyngor Sir. Sef, Nid oedd gan y Cynhorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r cais, ond ofynnwyd i dynnu sylw'r adran gynllunio at gais blaenorol a wnaeth y Cyngor Sir wrthod oherwydd consýrn a gwasanaethau dwr a.y.b.

Fe wnaeth y Cynhorydd Rowland Jones datgan diddordeb.

**15/941 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Dywedwyd y Cyng.Ann Tudor for grid gyferbyn a Llidiardau ar Ffordd Trawscoed wedi suddo, gall achosi difrod i gerbydau a.y.b. Ofynnwyd i'r clerc codi'r mater yma gan Gyngor Ceredigion.
2. Penderfynnwyd ar ddyddiad ar gyfer toriad olaf y fynwent eleni; 13 Medi am 17:00yh. Roedd y Cynghorwyr i gyd yn gytûn a'r dyddiad yma.
3. Codwyd consyrn gan y Cyng.Richard Davies am gyflwr ochr y ffordd ar gornel Cefnllwynpiod; phasiwyd i'r clerc cysylltu â'r adran Priffyrdd i nodi hyn.
4. Dywedwyd y Cyng.Richard Davies fod y cyflwr ffordd Castle Hill yn gwaethygu. Ofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu eto ynglŷn â hyn.
5. Dwedwyd bob aelod o'r cyhoedd wedi codi consyrn am geir yn barcio yn lleoliad 'ceir yn troi' yng ngefyn stad tai Cwm Aur. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifenni at yr adran priffyrdd er mwyn codi'r consyrn yma.
6. **Goleuo'r goeden Nadolig** 4ydd Rhagfyr am 17:00yh. Roedd pawb yn gytûn a'r dyddiad yma.

Orfennwyd y gyfarfod am